# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 3 Chwefror 2005

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r gost wedi bod i Gymru, fesul ardal awdurdod lleol, o ddarparu gwasanaethau addysg i geiswyr lloches bob blwyddyn ers 1999. (WAQ41328)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff ddatganiad mewn perthynas â'r adroddiad Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd sy'n ymwneud â safonau gradd Prifysgol Cymru. (WAQ41329)

**Janet Ryder (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi manylion y ddyled sy'n wynebu pob coleg Addysg Bellach. (WAQ41319)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r manylion diweddaraf am ei pholisïau ar addysg uwch. (WAQ41331)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y cynlluniau peilot i ddarparu brecwast am ddim mewn ysgolion. (WAQ41332)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y strategaeth i wella cyrhaeddiad addysgol ffurfiol yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. (WAQ41333)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y gwaith o wella sgiliau sylfaenol yng Nghymru. (WAQ41334)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei pholisïau i wneud mwy o ddefnydd o ysgolion fel adnodd cymunedol.

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y disgyblion y rhagwelir y bydd yn mynychu ysgolion yn Nwyrain De Cymru yn ystod y cyfnod 2005-2008. (WAQ411336)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lwyddiant Cychwyn Cadarn yng Nghymru. (WAQ41337)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y nifer sy'n derbyn Lwfansau Cynhaliaeth Addysgol yng Nghymru. (WAQ41338)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffordd y caiff sgiliau sylfaenol eu haddysgu yng Nghymru. (WAQ41339)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei gwaith gyda Chymdeithas Genedlaethol Meysydd Chwarae. (WAQ41340)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau yn sgil y newidiadau diweddar yn y cabinet o ran ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros blant. (WAQ41341)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel y cymorth y mae Llywodraeth y Cynuliad wedi ei roi i Gyngor Sir Ddinbych ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ41343)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y strategaeth ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru. (WAQ41344)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y nifer sydd wedi manteisio ar Fudd-dal y Dreth Gyngor yng Nghymru. (WAQ41345)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y mae polisiau'r Cynulliad Cenedlaethol wedi helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus yn Ne Cymru. (WAQ41346)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A ydyw'r Gweinidog wedi archwilio unrhyw drefniadau amgen i'r Dreth Gyngor, er enghraifft Treth Incwm Leol. (WAQ41347)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y sefyllfa o ran y cytundebau polisi â chynghorau lleol. (WAQ41348)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru. (WAQ41349)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio arferion gorau. (WAQ41350)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r canllawiau i annog mwy o berthynas rhwng awdurdodau lleol a'r sector preifat. (WAQ41351)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau staffio awdurdodau lleol. (WAQ41352)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o nyrsys asiantaeth o dramor a ddefnyddiwyd gan GIG Cymru bob blwyddyn ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ41321)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r gost wedi bod i Gymru, fesul ardal awdurdod lleol, o ddarparu gwasanaethau iechyd ar gyfer ceiswyr lloches yng Nghymru. (WAQ41322)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff ddatganiad mewn perthynas ag adroddiad y Gymdeithas Feddygol Brydeinig ar Ofal Iechyd mewn Lleoliad Gwledig (Ionawr 2005). (WAQ41323)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gyfuno ystyriaethau trafnidiaeth â'r gwasanaeth iechyd er mwyn gallu cynllunio ar gyfer gofal iechyd gwledig mewn lleoliadau gwledig. (WAQ41324)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynigion all y Gweinidog eu datblygu er mwyn i bob myfyriwr meddygol gael cyfle i ddewis mynd ar leoliad i ardal wledig. (WAQ41325)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynigion all y Gweinidog eu datblygu er mwyn mynd i'r afael â'r angen i asesu ac adolygu opsiynau i gynnal lefel y gofal iechyd eilaidd sydd ar gael a'i wella yn sgil pwysau ar y gwasanaeth damweiniau ac achosion brys mewn ardaloedd gwledig. (WAQ41326)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r rheolau ynghylch aelodaeth a swyddogaethau'r Cynghorau Iechyd Cymuned a'r ffordd y maent yn gweithredu. (WAQ41327)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd arloesol, lleol yn cael eu darparu er mwyn i gleifion allu manteisio ar wasanaethau a chael dewis o ran y cyfleusterau y maent yn eu defnyddio. (WAQ41299)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod meddygon yn cael eu hannog i ddefnyddio telefeddygaeth. (WAQ41318)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i asesu ac adolygu opsiynau ar gyfer cynnal lefel y gofal iechyd eilaidd sydd ar gael a'i wella mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell o Gymru. (WAQ41306)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod ystod o wasanaethau gofal iechyd ar gael yn ardaloedd gwledig ac anghysbell Cymru, er mwyn diwallu anghenion pobl ag anableddau. (WAQ41307)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i alluogi meddygon i gyflawni rhan o'u hyfforddiant gyda gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd. (WAQ41308)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cleifion mewn ardaloedd gwledig a diarffordd yn gallu mynychu cyrsiau hunan-reoli cleifion arbenigol yn eu hardal leol. (WAQ41309)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cyflwyno i sicrhau bod pob myfyriwr meddygol yng Nghymru yn cael y cyfle i ddewis mynd ar leoliad i gefn gwlad. (WAQ41310)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant ôl-radd yn manteisio ar y cyfleoedd sydd mewn gwasanaethau gofal sylfaenol a gofal eilaidd yng nghefn gwlad i ddysgu sgiliau cyffredinol i weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd (gan gynnwys llawfeddygon) yn ystod eu hyfforddiant sylfaenol. (WAQ41311)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod trefniadau datblygiad proffesiynol parhaus yn hyblyg ac yn ymateb i'r amryw o anghenion a geir mewn practisau meddygol gwledig/anghysbell, a'u bod wedi'u teilwra i'r anghenion addysgol y mae'r unigolyn wedi'u henwi. (WAQ41312)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod trefniadau cynllunio'r gweithlu yn ystyried anghenion hyfforddiant sy'n gysylltiedig â datblygiad proffesiynol parhaus, ac yn gwneud yn siwr bod ystod eang o gyfleoedd am hyfforddiant o'r fath yn cael eu datblygu fel bod staff o wahanol fathau o bractisau gwledig yn gallu manteisio ar hyfforddiant. (WAQ41313)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cynlluniau ar gael i gefnogi gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a'u teuluoedd yn y gymuned, er mwyn helpu i'w cadw yn eu swyddi. (WAQ41314)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod system locwm ganolog ar gael i gynnal practisau

meddygon teulu mewn ardaloedd diarffordd ac anghysbell, ynghyd â'r cymunedau anghysbell y maent yn eu gwasanaethu. (WAQ41315)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cyfleoedd hyblyg am waith mewn ardaloedd gwledig er mwyn cynorthwyo i recriwtio a chadw gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd. (WAQ41316)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod ystyriaethau trafnidiaeth yn cael eu hintegreiddio i mewn i broses cynllunio'r gwasanaeth iechyd ar gyfer cymunedau gwledig ac anghysbell yng Nghymru. (WAQ41318)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa strategaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cyflwyno neu'n bwriadu eu cyflwyno er mwyn hyrwyddo meddygaeth i ddarpar fyfyrwyr o gefndiroedd gwledig, a'u hannog i wneud cais i ysgol feddygaeth. (WAQ41317)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ymhellach at WAQ41045, pa sylwadau a wnaeth hi i Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru, a beth oedd canlyniad ei thrafodaethau. (WAQ41330)

## *Gofyn i Gynrychiolydd Pwyllgor y Ty*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff cynrychiolydd Pwyllgor y Ty gyhoeddi manylion yr holl geisiadau a dderbyniwyd gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth hyd at 27 Ionawr 2005. (WAQ41342)